# Oedfa'r Sul

(gan y Parchg R.O Roberts, Morfa Nefyn)

**Gweddi:** Dduw, helpa ni i glosio atat.

**Emyn:** 571 "Tyrd, Ysbryd Glân …"

**Darllen:** Marc 3: 7-35

Mae dyfodiad Iesu i'r byd yn ein gorfodi i wneud penderfyniad yn ei gylch. Roedd y tyrfaoedd a'i dilynai yn dangos mor boblogaidd ydoedd, ond cafwyd ymateb amrywiol i'w neges: rhai'n credu ac yn glynu wrtho, eraill yn ei ddilyn oherwydd y gweithredoedd a gyflawnai ac eraill yn caledu calon gan gynllwynio i'w ladd. Dal i wasanaethu'n drugarog wnai Iesu a dangos ei nerth wrth barhau yn y frwydr ysbrydol yn erbyn yr un drwg. Mae hefyd ar ei wyliadwriaeth rhag i'r dyrfa na'r awdurdodau na'r ysbrydion aflan gymryd yr awenau o'i ddwylo. Cofiwn ei eiriau wrth ei fam *"Dydy fy amser i ddim wedi dod eto"* (In. 2:4). Ymhen amser byddai'n esbonio i'w ddilynwyr *"fod rhaid iddo fynd i Jerwsalem. Byddai'r arweinwyr Iddewig, y prif offeiriaid a'r arbenigwyr yn y Gyfraith yn gwneud iddo ddiodde'n ofnadwy. Byddai'n cael ei ladd, ond yna'n dod yn ôl yn fyw ddeuddydd wedyn"* (Math. 16:21). Ef fyddai'n dewis yr awr. Yn y cyfamser rhaid oedd cyhoeddi'r deyrnas a pharatoi ar gyfer y dydd y byddai eraill yn cario gwaith y deyrnas ymlaen. Dyma ran o'r paratoi: dewis y deuddeg gan ddechrau creu pobl newydd iddo'i hun – yr eglwys/ei deulu; dewis deuddeg disgybl/apostol i fod efo fo ac i rannu'r newyddion amdano a'i deyrnas. Daeth i'r byd a cherdded ffordd y groes i'n cymodi â Duw. Meddai'r apostol Paul "*Ar ran y Meseia, dŷn ni'n crefu arnoch chi: Dewch i berthynas newydd gyda Duw! Wnaeth Iesu ddim pechu, ond dyma Duw yn ei wneud e'n offrwm dros bechod ar ein rhan ni. Dŷn ni'n gallu byw mewn perthynas iawn gyda Duw drwy ein perthynas gydag o"* (2 Cor. 5:20-21). Enwir deuddeg: cymeriadau gwahanol iawn i'w gilydd o ran natur, ac yn meddu ar wahanol ddoniau. Llwyddodd Iesu i wneud rhai na fyddai fel arall yn ymwneud â'i gilydd yn gymdeithas a theulu. Sylwn mai fo sy'n gwahodd a hwy'n dewis mynd ato. Iesu sy'n dewis ein gwahodd i'w gymdeithas, ond ni sy'n gorfod dewis ymateb i'w wahoddiad a mynd ato a phrofi'r fraint a'r anrhydedd o gwmni Duw ynddo. Dyma gwmniaeth sy'n bwrw allan ofn gan roi tangnefedd, heddwch cydwybod, arweiniad a diogelwch. Cwmniaeth un sy'n meddwl am ein lles, yn gwella ein clwyfau, yn ein cysuro a sychu ein dagrau. Yn ei gwmni y dysgodd ac y deallodd y disgyblion ddirgelion teyrnas Dduw. Mae Iesu'n aml yn encilio gyda'r rhain. Cofiwn ddechrau'r bregeth ar y mynydd *"Pan welodd Iesu yr holl dyrfaoedd, aeth i fyny i ben y mynydd. Pan eisteddodd i lawr, daeth ei ddilynwyr ato, a dechreuodd eu dysgu"* (Math. 5:1) Yr unig beth all ein cadw rhagddo ydi styfnigrwydd ac anghrediniaeth. Cafodd Jwdas Iscariot gyfle ond ciliodd oddi wrtho gan wrthod i Dduw gael meddiant o'i fywyd trwy ei Ysbryd Glân. Ac anfonodd Iesu'r disgyblion allan i bregethu, a'u dysgu i rannu ei newyddion da am deyrnas Dduw a gwahodd rhai ato. Mae'r gwahoddiad yn mynd allan gyntaf at bobl Israel yn Samaria ac wedyn i'r holl fyd. Meddai wedi'r atgyfodiad *"Felly ewch i wneud pobl o bob gwlad yn ddisgyblion i mi, a'u bedyddio nhw fel arwydd eu bod nhw wedi dod i berthynas â'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân."* (Math. 28:19) Gwna Iesu hwy'n debyg iddo trwy roi awdurdod a nerth ei Ysbryd iddynt drechu teyrnas yr un drwg. Mae'n rhyddhau pobl o gaethiwed pechod, marwolaeth, afiechyd, gormes ac anghyfiawnder. Heddiw, gwrandawn ar wahoddiad Iesu i ni fwynhau ei gwmni. Ceisiwn nerth ei Ysbryd i rannu ei neges ac i drechu teyrnas yr un drwg.

**Gweddi:** Diolch, Arglwydd, am gael bod yn dy gwmni sy'n llawn cysur.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

# Gronyn

Rhif 909
24 Hydref, 2021



## Y rhodd fwyaf

Maes astudiaeth diddorol fyddai'r modd y bu eglwysi ar hyd y wlad yn dathlu'r Ŵyl Ddiolchgarwch dros y blynyddoedd a'r newidiadau a welwyd y blynyddoedd diwethaf hyn. Wn i ddim a fyddai astudiaeth o'r fath yn cadarnhau ynteu'n tanseilio'r syniad sydd gennyf fy mod wedi cychwyn fy ngweinidogaeth pan welwyd un newid arwyddocaol yn nathliadau'r Ŵyl, o leiaf yn yr ardaloedd a oedd ac sy'n parhau'n gyfarwydd i mi.

Y cof sydd gen i o'r Diolchgarwch pan oeddwn yn blentyn ydi cyfarfodydd gweddi fore, pnawn a nos ar drydydd dydd Llun mis Hydref. Fedra i ddim cofio a oedd oedfa Ddiolchgarwch y plant wedi disodli cyfarfod gweddi'r bore erbyn hynny ynteu ar y Sul cynt y cynhelid honno. Ond erbyn i mi fynd i'r Coleg a dechrau pregethu roedd oedfaon pregethu dydd Diolchgarwch wedi dod yn fwy a mwy cyffredin, a gwahoddiadau'n dod i'r myfyrwyr wasanaethu ynddynt ar hyd ac ar led Gwynedd a Môn, a thu hwnt. Ers y blynyddoedd hynny bu newid mawr, a cheir yr argraff i'r Ŵyl ddarfod yn llwyr mewn llawer eglwys. Caiff pwy bynnag a fydd yn gwneud yr astudiaeth benderfynu a yw hynny'n wir ai peidio. A diddorol fyddai gwybod a fydd y sôn presennol am hinsawdd a'r greadigaeth yn gwneud i Gristnogion adfer mewn rhyw ffordd hen Ŵyl y Diolchgarwch.

Ambell dro, byddaf yn ofni (os ofni hefyd) i mi a'm tebyg roi ergyd farwol gwbl anfwriadol i'r Ŵyl hon trwy ein pregethu yn y cyfnod cynnar hwnnw. Sôn wyf am ddyddiau pan oedd nifer o bobl na fydden nhw byth fel arall yn dod i gapel yn dod i'r Diolchgarwch. Nid heb reswm y gelwid dydd Llun Diolchgarwch yn 'ddydd Llun pawb'. Er i lawer gilio ar oedfa ac addoliad roedd yn amlwg ryw ymwybyddiaeth yn aros o ddibyniaeth ar Dduw am gynhaliaeth faterol, a'r Diolchgarwch yn gyfrwng i roi mynegiant iddo.

Mi fyddai'n dda gen i feddwl mai fel arall y bu, ond tybed a siomwyd rhai os nad llawer o'r bobl hyn gan yr hyn a glywsant yn eu hoedfaon blynyddol? Ac rwy'n fwy na pharod i gydnabod i mi fod mor gyfrifol â neb am y siom hwnnw gan i mi fod yn euog o beidio â dweud fawr ddim am na haul na glaw na chynhaeaf na thorth na'r un arall o roddion tymhorol ond canolbwyntio'n hytrach ar y pennaf o'i roddion yn ei Fab Iesu Grist. Gwn i mi ac eraill fwy nag unwaith bregethu'r Efengyl a bodloni ar ddweud wrth gloi 'ein bod heno hefyd wrth gwrs yn diolch am ein cynhaliaeth'! O bosib bod rhai wedi blino ac wedi peidio â dod wedyn am nad dyna yr aethon nhw i'r oedfa i'w glywed!

Mi geisiais ers hynny arwain pobl ar y Diolchgarwch i ddiolch am haelioni a chynhaliaeth Duw. Mae'n briodol iawn gwneud hynny wedi'r cyfan. Ac eto, fyddwn i ddim am un eiliad yn ymddiheuro am roi hyd yn oed fwy o sylw i'r Efengyl ac i rodd fwyaf Duw i ni yn ei Fab.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch a Rehoboth (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

**Gwefan yr Ofalaeth:**
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

# Heddiw

## Ar y we

Bydd yr oedfa ar y we ar Sianel YouTube Capel Tanycoed heddiw yng ngofal John Roberts, Waunfawr. Bydd i'w gweld o 9.00 o'r gloch y bore ymlaen.

## Capel Coch ac Oedfa'r Ofalaeth

Yr oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch fydd Oedfa'r Ofalaeth heddiw, dan dan arweiniad y Gweinidog.

## Bethlehem / Carmel

Bydd oedfaon yng ngofal y Gweinidog ym Methlehem am 2.00 o'r gloch ac yng Nghapel Carmel am 5.00 o'r gloch.

## A hefyd ...

Ar gefn y rhifyn hwn ceir y ddiweddaraf yn y gyfres o oedfaon a baratowyd gan y Parchg Robert Roberts, Morfa Nefyn. Diolch iddo am gael ei defnyddio.

Mae'r oedfa ar Radio Cymru am 12.00 o'r gloch heddiw yng ngofal y Parchg Ddr Andras Iago, Dinbych.

# Actau

'Anfonodd o Miletus i Effesus a galw ato henuriaid yr eglwys. Pan gyraeddasant ato, dywedodd wrthynt, "Fe wyddoch fel y bûm i gyda chwi yr holl amser, er y diwrnod cyntaf y rhois fy nhroed yn Asia, yn gwasanaethu'r Arglwydd â phob gostyngeiddrwydd, ac â dagrau a threialon a ddaeth i'm rhan trwy gynllwynion yr Iddewon. Gwyddoch nad ymateliais rhag cyhoeddi i chwi ddim o'r hyn sydd fuddiol, na rhag eich dysgu chwi yn gyhoeddus ac yn eich cartrefi, gan dystiolaethu i Iddewon a Groegiaid am edifeirwch tuag at Dduw a ffydd yn ein Harglwydd Iesu. Ac yn awr dyma fi, dan orfodaeth yr Ysbryd, ar fy ffordd i Jerwsalem, heb wybod beth a ddigwydd imi yno, ond bod yr Ysbryd Glân o dref i dref yn tystiolaethu imi fod rhwymau a gorthrymderau yn fy aros. Ond yr wyf yn cyfrif nad yw fy mywyd o unrhyw werth imi, dim ond imi allu cwblhau fy ngyrfa, a'r weinidogaeth a gefais gan yr Arglwydd Iesu, i dystiolaethu i Efengyl gras Duw' (Actau'r Apostolion 20:17-24).

# Y Sul nesaf

## Hydref 3

Bydd yr oedfa ar Youtube yng ngofal Gwydion Lewis, y Bala. Bydd ar sianel TouTube Capel Tanycoed ac ar wefan yr Ofalaeth erbyn 9.00 o'r gloch y bore.

Bydd oedfa ar Zoom am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

Bydd Oedfa yng nghapel Bethlehem am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Dafydd Coetmor Williams, Rachub.

# Priodas

Llongyfarchiadau i Gwenllian Owen (Tai Caradog, Deiniolen) ac Adam Owen ar eu priodas yn Eglwys Llandinorwig ddoe, 23 Hydref. Gwasanaethwyd gan y Canon Idris Thomas a'r Gweinidog.

# Oedfa *Youtube*

Mr John Roberts, Waunfawr sy'n arwain yr oedfa ar sianel *Youtube* Capel Tanycoed heddiw. Bydd yr oedfa yno erbyn 9.00 o'r gloch y bore.

Cofiwch fod modd gweld oedfaon y misoedd diwethaf ar y we. Chwiliwch am 'Capel Tanycoed' ar Youtube neu mi fedrwch fynd at yr oedfa drwy wefan yr Ofalaeth neu drwy dudalen *Facebook* y capeli.

# Ymddeoliad

Dymunwn yn dda i'r Parchg Marcus Wyn Robinson, Bethel, ar ei ymddeoliad yr wythnos ddiwethaf. Cafwyd oedfa yng Nghapel y Rhos, Llanrug nos Fercher i nodi diwedd swyddogol ei weinidogaeth yng Ngofalaeth Glannau'r Saint. Yn yr oedfa hefyd roedd eglwys Brynrefail yn uno â'r eglwys yng Nghapel y Rhos.

Talwyd teyrnged i Marcus ar ran eglwysi Cysegr, Caeathro a Chapel y Rhos a Henaduriaeth Arfon gan Richard Lloyd Jones, Dafydd Iwan , Emyr Williams a'r Parchg Elwyn Richards.

Dechreuodd Marcus ei weinidogaeth yn Llanberis a Nant Peris wrth gwrs, 43 o flynyddoedd yn ôl yn 1978, cyn mynd yn gaplan gyda'r Llynges ac yna'n gaplan diwydiannol yng ngogledd-ddwyrain Cymru cyn dychwelyd i'r ardal hon. Bu-'n weinidog yng Ngofalaeth Glannau'r Saint am bron i bymtheng mlynedd.

Diolch iddo am ei wasanaeth i eglwysi ein Gofalaeth ninnau ac i Gynllun Efe dros y blynyddoedd.

# Ysgol Sul CC

Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau yn Capel Coch ddydd Sul, Tachwedd 7 am 11.15 o'r gloch.

# Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Jean Hughes, Talybont yn ei phrofedigaeth o golli ei mab Hefin, a fu farw yn Ysbyty Gwynedd nos Iau, Hydref 21 yn 60 mlwydd oed, wedi gwaeledd brawychus o fyr. Anfonwn ein cofion at ei briod Elaine a'r teulu yn eu colled annisgwyl.

# Cynllun Efe

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe fore Mawrth, Hydref 19. Am yr ail flwyddyn, bu raid cynnal y cyfarfod trwy gyfrwng Zoom, a byddwn yna anfon adroddiad am waith yr elusen am y flwyddyn ddiwethaf at yr eglwys a'n cefnogwyr mor fuan a phosibl.

Gobeithio bydd modd cynnal Cyfarfod Blynyddol cyhoeddus y flwyddyn nesaf.

Gan fod y Parchg Marcus Robinson, wrth ymddeol o'i Ofalaeth, wedi dewis hefyd ymddiswyddo o fod yn ymddiriedolwr i Gynllun Efe, bydd angen ethol olynydd iddo pan fyddwn yn cyfarfod nesaf ddechrau'r flwyddyn. Diolchwyd i Marcus am ei gefnogaeth i waith Cynllun Efe.

# Gwefan *Gronyn*

Os digwydd i chi golli rhifyn o Gronyn, cofiwch y medrwch ddarllen ól rifynnau ar wefan Gofalaeth Fro'r Llechen Las. Mae'n ddigon rhwydd dod o hyd iddi: ewch i

**gronyn.wordpress.com**
neu
**gronyn .org**

# Derbyn *Gronyn*

Cofiwch fod modd derbyn copi o *Gronyn* trwy e-bost bob Sul. Os nad ydych yn ei dderbyn felly ar hyn o bryd a'ch bod yn dymuno gwneud hyn, anfonwch neges at y Gweinidog, at:

**john.cilfynydd@btinternet.com**